

BRIDGEMAN, GEORGE THOMAS ORLANDO (1823 - 1895), clerigwr, hynafiaethydd ac achyddwr

Enw: George Thomas Orlando Bridgeman
Dyddiad geni: 1823
Dyddiad marw: 1895
Rhiant: Bridgeman
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr, hynafiaethydd ac achyddwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 21 Awst 1823 yn ail fab i ail iarll Bradford; disgynnai o'r Syr Orlando Bridgeman (gweler D.N.B.) â fu'n geidwad y sêl dan Siarl II; yr oedd i'r teulu gysylltiadau priodasol â Sir Amwythig ac a **Myddeltoniaid** y Waun. Addysgywyd ef yn Harrow a Choleg y Drindod, Caergrawnt - graddiodd yn 1845. Wedi bod yn rheithor yn Sir Amwythig, caffod yn 1864 reithoraeth deuluo Wigan, ac yno y bu farw 25 Tachwedd 1895. Sgrifennodd lyfr ar hanes Wigan.

Ond teimlai hefyd ddiddordeb mawr yng nghysylltiadau ei deulu â'r goror Cymreig. Cyfrannodd i *Archaeologia Cambrensis* 1863 ysgrif ar 'The Ancient Lords of Mechain,' ac i *Collections, historical & archaeological relating to Montgomeryshire* ysgrifau ar 'The Princes of Upper Powys' a 'The Welsh Lords of Kerry and Arwystli' - y ddwy yn 1868. Cyhoeddodd yn 1876 ei gyfrol ddefnyddiol iawn *History of the Princes of South Wales* - nid 'hanes' yn ystyr gyffredin y gair, ond yn hytrach gasgliad o ffeithiau achyddol nid yw'n rhwydd i w ddarllen ond y mae ynddo swm mawr o fanylion nas ceir yn hwylus yn unman arall.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Burke's Peerage, Baronetage, and Knightage

Venn, Alumni Cantabrigienses

Archaeologia Cambrensis, 1877, 243-8

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 10218685

Wikidata: Q5545162

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Jenkins, R. T., (1953). BRIDGEMAN, GEORGE THOMAS ORLANDO (1823 - 1895), clerigwr, hynafiaethydd ac achyddwr. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c1-BRID-ORL-1823>

□ Copiau'r
clipWrdd

Preifatrwydd a Chwics
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodder gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government